

Hysbysiad o amrywiad gyda nodyn rhagarweiniol

Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016

G. ac M. ac O. Davies

Tir yn Nhŷ Cerrig
Parc
Y Bala
Gwynedd
LL23 7YS

Rhif y cais i amrywio
GWN1937/V002

Rhif y drwydded
GWN1937

Tir yn Nhŷ Cerrig
Rhif y drwydded GWN1937

Nodyn rhagarweiniol

Nid yw'r nodyn rhagarweiniol hwn yn ffurfio rhan o'r hysbysiad

Mae'r hysbysiad canlynol yn hysbysu am amrywiad i drwydded amgylcheddol. Rhaid dileu'r deiliaid trwyddedau canlynol fel gweithredwyr y drwydded: -

Mr Arwel Davies

o

Pant y Neuadd
Parc
Y Bala
Gwynedd
LL23 7YS

a

Mr Iwan Davies

o

Tŷ Du
Parc
Y Bala
Gwynedd
LL23 7YS

Mae cofnodion statws y drwydded yn amlinellu hanes y drwydded, gan gynnwys unrhyw newidiadau i rif cyfeirnod y drwydded. Nid oes cofnodion cyn 6 Ebrill 2010.

Cofnodion statws y drwydded		
Disgrifiad	Dyddiad	Sylwadau
Pennwyd amrywiad a gychwynnwyd gan y rheoleiddiwr GWN1937/V001	08/12/2011	Diweddariad EPR a GWDD
Cais GWN1937/V002 (amrywiad)	17/12/2017	Cais i ddileu Mr Arwel Davies a Mr Iwan Davies fel gweithredwyr
Penderfynwyd ar yr amrywiad GWN1937/V002	15/03/2018	Cyflwynwyd trwydded amrywiol i G. ac M. ac O. Davies

Diwedd y nodyn rhagarweiniol

Hysbysiad o amrywiad

Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016

Mae Corff Adnoddau Naturiol Cymru ("Cyfoeth Naturiol Cymru") wrth arfer ei bwerau dan reoliad 20 Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 yn amrywio'r canlynol:

Rhif y drwydded: GWN1937

a gyflwynwyd i
Mr Gwilym Davies ("y gweithredwr")

o

Tŷ Cerrig
Parc
Y Bala
Gwynedd
LL23 7YT

a

Davies a'i Feibion ("y gweithredwr")

o

Penbryncoch
Parc
Y Bala
LL23 7YN

i weithredu cyfleuster a reoleiddir ar

Dir yn
Nhŷ Cerrig
Parc
Y Bala
Gwynedd
LL23 7YS

Daw'r hysbysiad hwn i rym o 15/03/2018

Enw

Dyddiad:

Emily Roe

15/03/2018

Awdurdodwyd ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru

Atodlen 1

Mae'r holl amodau wedi cael eu hamrywio yn ôl y drwydded gyfunol GWN1937.

Atodlen 2 – Trwydded gyfunol

Cyflwynwyd y drwydded gyfunol fel dogfen ar wahân.

Trwydded

Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016

Rhif y drwydded

GWN1937

Mae Corff Adnoddau Naturiol Cymru ("Cyfoeth Naturiol Cymru") drwy hyn yn awdurdodi, o dan reoliad 13 Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016

Mr Gwilym Davies ("y gweithredwr")

o

Tŷ Cerrig

Parc

Y Bala

Gwynedd

LL23 7YS

a

Davies a'i Feibion ("y gweithredwr")

o

Penbryncoch

Parc

Y Bala

Gwynedd

LL23 7YN

i ymgymryd â gweithgareddau dŵr daear ar

Dir yn Nhŷ Cerrig

Parc

Y Bala

Gwynedd

LL23 7YS

i'r graddau yr awdurdodwyd gan, ac o dan amodau y drwydded hon.

Enw

Dyddi

Emily Roe

15/03/2018

Awdurdodwyd ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru

Amodau

1 Rheolaeth

1.1 Rheolaeth gyffredinol

1.1.1 Bydd y gweithredwr yn rheoli ac yn gweithredu'r gweithgareddau:

- (a) yn unol â system reoli ysgrifenedig sy'n nodi ac yn lleihau'r perygl o lygredd, gan gynnwys y rheini a ddaw o weithrediadau, gwaith cynnal a chadw, damweiniau, digwyddiadau, achosion o ddiffyg cydymffurfio, a'r rheini a gaiff eu tynnu at sylw'r gweithredwr o ganlyniad i gwynion;
- (b) gan ddefnyddio digon o unigolion cymwys ac adnoddau.

1.1.2 Bydd yn ofynnol cadw cofnodion sy'n arddangos cydymffurfiaeth ag amod 1.1.1.

1.1.3 Dylai unrhyw un sydd â dyletswyddau a effeithir gan y materion a nodir yn y drwydded hon, neu y gellid cael eu heffeithio ganddynt, gael mynediad cyfleus at gopi ohoni, wedi'i chadw yn y man lle y cyflawnir y dyletswyddau hynny, neu'n agos at y man hwnnw.

2 Gweithrediadau

2.1 Gweithgareddau a ganiateir

2.1.1 Caniateir i'r gweithredwr ymgymryd â'r gweithgareddau a nodir yn Atodlen 1, tabl S1.1 yn unig (y "gweithgareddau").

2.2 Y safle

2.2.1 Ni chaniateir i'r gweithgareddau ymestyn y tu hwnt i'r safle, sef y tir a ddangosir ag ymyl gwyrdd ar y cynllun safle yn atodlen 7 y drwydded hon, wedi'i ganoli ar Gyfeirnod Grid Cenedlaethol **SH 87460 34709**.

2.2.2 Dylid gwneud y gollwng ar y safle gwaredu cyffredinol, wedi'i leoli ar Gyfeirnod Grid Cenedlaethol **SH 87460 34709**.

2.3 Technegau gweithredu

2.3.1 Dylid gwneud y gollwng drwy daenu ar ddarn o dir sydd â gorchudd sefydledig o lystyfiant, ac iddo ychydig iawn o werth i fywyd gwyllt. Ni ddylai'r darn o dir gynnwys perthi, coetiroedd neu ddolydd o flodau gwyllt, na thir sy'n foel fel rhan o gylchdroi cnydau.

2.3.2 Ni chaniateir i unrhyw ollwng ddigwydd o fewn:

- (a) 10 metr i'r cwrs dŵr agosaf (sy'n cynnwys ffosydd a draeniau tir agored a allai redeg yn sych am ran o'r flwyddyn) na 30 metr i afon a ddynodwyd yn Safle Ewropeaidd neu Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA);
- (b) 50 metr i unrhyw ffynnon, tarddell neu ddyfrdwl, ni waeth pa ddefnydd a wneir ohonynt ar hyn o bryd;

- (c) 500 metr i unrhyw ffynnon, tardell neu ddyfrdwl pan fwriedir i'r dŵr gael ei ddefnyddio gan bobl;
 - (d) 25 metr i lyncdwl dynodedig.
- 2.3.4 Ni chaniateir i unrhyw ollwng ddigwydd o fewn 10 metr neu bellter arall mewn metrau i derfyn unrhyw gae neu lwybr troed.
- 2.3.5 Ni chaniateir i unrhyw ollwng ddigwydd ar dir sydd:
- (a) wedi'i dan-ddraenio neu ei ddraenio drwy dyrchu o fewn 12 mis cyn unrhyw waith gollwng, neu wedi'i hollti lawr i'r draen neu unrhyw ôl-lenwad;
 - (b) â graddiant sy'n fwy na 11 gradd (tua 1 mewn 5);
 - (c) wedi rhewi'n galed neu wedi'i orchuddio gan eira;
 - (d) yn dueddol o gael llifogydd;
 - (e) wedi cywasgu'n ddifrifol neu'n llawn dŵr.
- 2.3.6 Ni chaniateir gollwng dip defaid sydd wedi'i ddefnyddio neu sy'n wastraff ar dir lle mae cnydau'n cael eu tyfu ar hyn o bryd i bobl eu bwyta.
- 2.3.7 Bydd yn ofynnol i'r offer a/neu'r dulliau ar gyfer golwg gael eu cynllunio a'u gweithredu mewn modd sy'n cydymffurfio â gofynion amodau 2.3.7 a 2.3.8.

Cyfaint a chyfradd

- 2.3.8 Ni ddylai cyfaint y dip defaid a ddefnyddir neu sy'n wastraff (o gryfder gweithio), cyn ei ddyfrhau i gynorthwyo i'w daenu'n ddiogel, fod yn fwy na 4 metr ciwbig y flwyddyn wedi'i ollwng i'r tir a nodwyd yn atodlen 7 ac yn unol â gofynion amodau 2.3.9 neu 2.3.10.
- 2.3.9 Ni ddylai uchafswm y gyfradd daenu ddyddiol o wastraff dip defaid / dip defaid a ddefnyddiwyd o gryfder gweithio fod yn fwy nag 1 metr ciwbig wedi'i wasgaru'n llyfn ar gyfanswm o 0.2 hectar o'r tir a nodwyd yn atodlen 7.
- 2.3.10 Ni ddylai uchafswm y gyfradd ddyddiol o wastraff dip defaid / dip defaid a ddefnyddiwyd o gryfder gweithio wedi'i wanhau ymhellach i'r gymhareb 1 rhan dip i 3 rhan slyri neu ddŵr, fod yn fwy na **4** metr ciwbig wedi'i daenu'n llyfn ar gyfanswm o **0.2** hectar o'r tir a nodwyd yn atodlen 7.

Cyfnod gollwng

- 2.3.11 Caniateir gollwng dip defaid wedi'i ddefnyddio/gwastraff rhwng y dyddiadau 1 Ebrill a 31 Mawrth bob blwyddyn yn unig, a chan gynnwys y dyddiadau hynny.
- 2.3.12 Ni ddylid gollwng dip defaid a ddefnyddiwyd / gwastraff dip defaid i'r un darn unigol o dir o fewn y safle gwaredu cyffredinol a nodwyd yn atodlen 7 yn amlach nag unwaith y flwyddyn. Gellid gwneud cyfanswm o **4** gollyngiad y flwyddyn, ond mae'n rhaid i'r darn o dir gael ei gylchdroi o fewn y safle gwaredu cyffredinol.

3 Allryriadau a monitro

3.1 Allryriadau sylweddau nas rheolir gan gyfyngiadau allyriadau

- 3.1.1 Ni fydd allyriadau o sylweddau nas rheolir gan gyfyngiadau allyriadau (heb gynnwys arogleuon) yn achosi llygredd. Ni chaiff y gweithredwr ei ddal yn gyfrifol am dorri'r amod hwn os yw'r mesurau priodol, gan gynnwys, ond heb gael eu cyfyngu i'r rheini a nodir yn y cynllun rheoli allyriadau a gymeradwywyd, wedi'u cymryd i atal neu leihau'r allyriadau hynny (lle nad yw atal yn ymarferol).
- 3.1.2 Bydd y gweithredwr:
- (a) os gaiff hysbysiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru fod y gweithgareddau hyn yn achosi llygredd, yn cyflwyno i Cyfoeth Naturiol Cymru i'w gymeradwyo o fewn yr amser a nodwyd, gynllun rheoli allyriadau sy'n nodi ac yn lleihau risgiau llygredd o allyriadau sylweddau nad ydynt yn cael eu rheoli gan derfynau allyriadau;
 - (b) yn gweithredu'r cynllun rheoli allyriadau a gymeradwywyd, o'r dyddiad cymeradwyo, oni chytunir yn wahanol yn ysgrifenedig gan Cyfoeth Naturiol Cymru.
- 3.1.3 Dylai'r yr holl hylifau mewn cynhwysyddion, y gallai eu gollwng i ddŵr neu dir achosi llygredd, fod mewn cyfyngiant eilaidd, oni bai bod y gweithredwr wedi defnyddio mesurau priodol eraill i atal neu, os nad yw hynny'n ymarferol, i leihau gollyngiadau a cholledion o'r prif gynhwysydd.
- 3.1.4 Bydd yn rhaid cymryd mesurau priodol i atal sylweddau peryglus rhag treiddio i ddŵr daear drwy rwystro mynediad y sylweddau hynny i ddŵr daear a thrwy osgoi unrhyw gynnydd sylweddol yn eu crynodiad mewn dŵr daear.

4 Gwybodaeth

4.1 Cofnodion

- 4.1.1 Bydd yn rhaid i'r holl gofnodion a wneir gan y drwydded hon:
- (a) fod yn ddarllenadwy;
 - (b) cael eu gwneud cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol;
 - (c) os cânt eu diwygio, cael eu diwygio yn y fath fodd fel bod y gwreiddiol ac unrhyw ddiwygiadau dilynol yn parhau i fod yn ddarllenadwy, neu fod modd eu hadfer;
 - (d) chael eu cadw, oni chytunir yn wahanol yn ysgrifenedig gan Cyfoeth Naturiol Cymru, am o leiaf chwe blynedd o'r dyddiad y cafodd y cofnodion eu gwneud.
- 4.1.2 Bydd y gweithredwr yn cadw'r holl gofnodion, cynlluniau a'r system reoli sy'n angenrheidiol ei chynnal yn ôl y drwydded hon ar y safle, oni bai bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cytuno'n ysgrifenedig fel arall.
- 4.1.3 Bydd cofnodion ar gyfer gollyngiadau o wastraff dip defaid yn cynnwys:
- (a) enw, cyfeiriad a Chyfeirnod Grid Cenedlaethol y safle lle mae'r dip defaid a ddefnyddiwyd / gwastraff dip defaid yn deillio;

- (b) cyfeintiau dyddiol dip defaid a ddefnyddiwyd / gwastraff dip defaid heb ei wanhau a ollyngir;
- (c) cyfraddau gollwng;
- (d) lleoliad ac ardal y gollyngiadau;
- (e) natur y dip a ddefnyddiwyd (bydd yr enw marchnata swyddogol yn ddigonol);
- (f) unrhyw ddeunyddiau a ychwanegwyd i wanhau neu drin y dip defaid a ddefnyddiwyd / gwastraff dip defaid, gan gynnwys dŵr neu slyri;
- (g) ar gyfer gollyngiadau lluosog, gofnodion sy'n dangos bod y gweithredwr wedi cydymffurfio â'r un gollyngiad a ganiateir fesul darn o dir dynodedig bob blwyddyn.

4.2 Adrodd

- 4.2.1 Bydd yn ofynnol i'r gweithredwr anfon holl adroddiadau a hysbysiadau sy'n ofynnol yn ôl y drwydded at Cyfoeth Naturiol Cymru gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a nodwyd yn ysgrifenedig gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

4.3 Hysbysiadau

- 4.3.1 Bydd yn ofynnol hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru ar unwaith os darganfyddir:
- (a) unrhyw ddiffyg neu fethiant offer neu dechnegau, damwain, neu allyriad sylwedd nad yw'n cael ei reoli gan derfynau allyriadau sydd wedi achosi, yn achosi neu'n debygol o achosi llygredd sylweddol;
 - (b) bod terfyn a nodir yn y drwydded wedi'i dorri; neu
 - (c) unrhyw effeithiau amgylcheddol negyddol sylweddol.
- 4.3.2 Caiff unrhyw wybodaeth a ddarperir o dan amod 4.3.2 ei chadarnhau drwy anfon y wybodaeth a restrir yn atodlen 5 i'r drwydded hon o fewn y cyfnod a nodwyd yn yr atodlen honno.
- 4.3.3 Pan fydd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gofyn yn ysgrifenedig i gael ei hysbysu ynghylch pa bryd y bydd y gweithredwr yn ymgymryd â monitro a/neu samplu smotyn, bydd y gweithredwr yn hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch pa bryd y bydd y monitro a/neu samplu smotyn yn cael ei gynnal, bydd y gweithredwr yn darparu'r wybodaeth hon i Cyfoeth Naturiol Cymru o leiaf 14 diwrnod cyn y dyddiad pan fydd y monitro yn cael ei wneud.
- 4.3.4 Dylid hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru ymhen 14 diwrnod i'r materion canlynol ddigwydd, oni bai bod datguddiad o'r fath wedi'i wahardd gan reolau'r Gyfnewidfa Stoc:
- Pan fydd y gweithredwr yn gwmni cofrestredig:
- (a) unrhyw newid i enw masnachu'r gweithredwr, enw cofrestredig neu gyfeiriad y swyddfa gofrestredig;
 - (b) unrhyw gamau a gymerwyd gyda'r nod o'r gweithredwr yn mynd i ddwylo'r gweinyddwr, yn mynd i drefniant gwirfoddol cwmni, neu'n cael ei ddirwyn i ben.
- Pan fydd y gweithredwr yn gorff corfforaethol nad yw'n gwmni cofrestredig:
- (a) unrhyw newid i enw neu gyfeiriad y gweithredwr;
 - (b) unrhyw gamau a gymerwyd gyda'r nod o ddiddymu'r gweithredwr.

Pan fydd y darparwr yn cynnig gwneud newid i natur neu weithredu'r gweithgareddau, neu eu hymestyn, a allai fod â chanlyniadau i'r amgylchedd ac nid yw'r newid fel arall yn destun cais i'w gymeradwyo o dan y rheoliadau na'r drwydded hon:

- (a) dylid hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru o leiaf 14 diwrnod cyn i'r newid gael ei wneud;
- (b) bydd yr hysbysiad yn cynnwys disgrifiad o'r newid arfaethedig i'r gweithrediadau.

4.4 Dehongliad

- 4.4.1 Yn y drwydded hon, bydd gan yr ymadroddion a restrir yn atodlen 6 yr ystyr a roddir gan yr atodlen honno.
- 4.4.2 Yn y drwydded hon, mae cyfeiriadau at adroddiadau a hysbysiadau yn golygu adroddiadau a hysbysiadau ysgrifenedig, oni bai lle y gwneir hysbysiad "heb oedi"; gallai hynny olygu hysbysiad dros y ffôn.

Atodlen 1 – Gweithrediadau

Tabl S1.1 Gweithgareddau	
Disgrifiad o'r gweithgaredd	Cyfngiadau gweithgaredd penodedig
Bydd y gollwng yn cynnwys dip defaid gwastraff a ddefnyddiwyd yn Nhŷ Cerrig yn unig yn unol â'r awdurdod marchnata priodol a gyhoeddwyd gan Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra).	Dim ond unwaith y gellid gollwng gwastraff dip defaid ar unrhyw ddarn unigol o dir mewn unrhyw flwyddyn. Dylid cadw cofnodion o'r union le y cynhelir pob gwarediad o fewn y safle gwaredu cyffredinol.

Atodlen 2 – Mathau o wastraff, deunyddiau crai a thanwyddau

Ni chaiff gwastraff ei dderbyn fel rhan o'r gweithgareddau a ganiateir ac ni cheir unrhyw gyfyngiadau ar ddeunyddiau crai neu danwydd o dan yr atodlen hon.

Atodlen 3 – Allyriadau a monitro

Ni cheir unrhyw gyfyngiadau neu anghenion monitro cysylltiedig ar allyriadau.

Atodlen 4 – Adrodd

Ni cheir adrodd yn ôl o dan yr atodlen hon.

Atodlen 5 – Hysbysiad

Mae'r tudalennau hyn yn amlinellu'r wybodaeth y mae'n rhaid i'r gweithredwr ei darparu.

Dylai'r unedau mesur a ddefnyddir yn y wybodaeth a ddarperir o dan Ran A a Rhan B fod yn briodol i amgylchiadau'r allyriad. Pan fo'n briodol, dylid cymharu'r allyriadau gwirioneddol a'r cyfyngiadau allyriadau a awdurdodir.

Os caiff unrhyw wybodaeth ei hystyried yn fasnachol gyfrinachol, dylid ei gwahanu oddi wrth y wybodaeth nad yw'n gyfrinachol, a'i darparu ar dudalen ar wahân gyda chais ar gyfer cyfrinachedd masnachol o dan ddarpariaethau'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol.

Rhan A

Rhif y drwydded	GWN1937
Enw'r gweithredwr	
Lleoliad y cyfleuster	Tir yn Nhŷ Cerrig
Amser a dyddiad y datgeliad	

(a) Gofynion hysbysu ar gyfer unrhyw ddiffyg, toriad neu fethiant mewn perthynas ag offer neu dechnegau, damwain, neu allyriad unrhyw sylwedd na chaiff ei reoli gan gyfyngiad allyriad sydd wedi achosi, yn achosi, neu'n gallu achosi llygredd sylweddol

I'w hysbysu o fewn 24 awr o'r datgeliad

Dyddiad ac amser y digwyddiad	
Cyfeirnod neu ddisgrifiad o leoliad y digwyddiad	
Disgrifiad o lle y gwnaed unrhyw ollyngiad i'r amgylchedd	
Sylwedd(au) a ryddhawyd o bosib	
Amcangyfrif gorau o faint neu raddfa rhyddhau'r sylweddau	
Mesurau a gymerwyd, neu y bwriedir eu cymryd, i rwystro unrhyw allyriad	
Disgrifiad o'r methiant neu'r ddamwain	

(b) Gofynion hysbysu mewn achos o dorri'r terfyn

I'w hysbysu o fewn 24 awr o ddatgeliad oni bai y nodir yn wahanol isod

Cyfeirnod man / ffynhonnell yr allyriad	
Paramedr(au)	
Cyfyngiad	
Gwerth a fesurwyd ac ansicrwydd	
Dyddiad ac amser monitro	
Mesurau a gymerwyd, neu y bwriedir eu cymryd, i atal yr	

allyriad	
----------	--

Cyfnodau amser ar gyfer hysbysu yn dilyn datgelu bod terfyn wedi'i dorri	
Paramedr	Cyfnod hysbysu

(c) Gofynion hysbysu ar gyfer datgeliad unrhyw effaith amgylcheddol negyddol sylweddol	
I'w hysbysu o fewn 24 awr o'r datgeliad	
Disgrifiad o lle y datgelwyd yr effaith ar yr amgylchedd	
Sylwedd(au) a ddatgelwyd	
Crynodeiadau o'r sylweddau a ddatgelwyd	
Dyddiad monitro/samplu	

Rhan B – i'w chyflwyno cyn gynted ag y bo'n ymarferol

Unrhyw wybodaeth fwy cywir am faterion i'w hysbysu o dan Ran A.	
Mesurau a gymerwyd, neu y bwriedir eu cymryd, i atal y digwyddiad rhag digwydd eto	
Mesurau a gymerwyd, neu y bwriedir eu cymryd, i gywiro, cyfyngu neu atal llygredd i'r amgylchedd a wnaed neu y gallai fod wedi'i wneud gan yr allyriad	
Dyddiadau unrhyw allyriadau heb eu hawdurdodi o'r cyfleuster yn y 24 mis blaenorol	

Enw*	
Swydd	
Llofnod	
Dyddiad	

* awdurdodwyd i lofnodi ar ran y gweithredwr

Atodlen 6 – Dehongliad

ystyr "damwain" yw damwain a allai arwain at lygredd.

ystyr "yn flynyddol" yw unwaith y flwyddyn.

ystyr "cais" yw'r cais ar gyfer y drwydded hon, ynghyd ag unrhyw wybodaeth ychwanegol a ddarperir gan y gweithredwr fel rhan o'r cais ac mewn ymateb i hysbysiad a gyflwynir o dan atodlen 5 i'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol.

mae "allyriadau i'r tir" yn cynnwys allyriadau i ddŵr daear.

ystyr "Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol" yw Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016, OS 2010, Rhif 1154, a geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn y drwydded hon sydd hefyd yn cael eu defnyddio yn y rheoliadau i fod â'r un ystyr a'r rhai sydd yn y rheoliadau hynny.

ystyr "allyriadau o sylweddau nas rheolir gan gyfyngiadau allyriadau" yw allyriadau o sylweddau i'r awyr, dŵr neu dir o'r gweithgareddau, naill ai o'r manau allyriadau a nodir yn Atodlen 3 neu oddi wrth ffynonellau lleol neu wasgaredig eraill, nas rheolir gan gyfyngiadau allyriadau neu grynodiad cefndirol.

ystyr "Safle Ewropeaidd" yw Ardal Cadwraeth Arbennig neu ddarpar Ardal Cadwraeth Arbennig, neu Ardal Gwarchodaeth Arbennig neu Ardal Gwarchodaeth Arbennig arfaethedig yng Nghymru a Lloegr, o fewn ystyr Cyfarwyddiaethau Cyngor 79/409/EEC ar gadwraeth adar gwyllt a 92/43/EEC ar gadwraeth cynefinoedd naturiol a fflora a ffawna gwyllt, a Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (SI 2017 Rhif 1012). Caiff safleoedd Ramsar a ddynodwyd yn rhyngwladol eu trin yn yr un ffordd â safleoedd Ewropeaidd fel mater o bolisi llywodraeth ac, at ddiben y drwydded hon, byddant yn cael eu hystyried yn Safle Ewropeaidd.

ystyr "dŵr daear" yw'r holl ddŵr sydd o dan arwyneb y ddaear yn y parth dirlawn ac mewn cyswllt uniongyrchol â'r tir neu'r isbridd.

ystyr "draenio tyrchu" yw draenio drwy system o dwneli diamedr cul, neu dramwyfeydd, sy'n cynnal eu hunain mewn pridd (fel tyllau twrch daear), ac a grëwyd gan declyn a dynnwyd ar ddyfnder bas y tu ôl i dractor ac sydd wedi'u dylunio i ddraenio dŵr o briddoedd sy'n wael am ddraenio.

ystyr "Cyfoeth Naturiol Cymru" yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru a sefydlwyd gan erthygl 3 Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012. Trosglwyddodd Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 swyddogaethau perthnasol Cyngor Cefn Gwlad Cymru a swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru i Gorff Adnoddau Naturiol Cymru.



ystyr "chwarter" yw chwarter bob blwyddyn galendr sy'n dechrau ar 1 Ionawr, 1 Ebrill, 1 Gorffennaf neu 1 Hydref.

ystyr "SoDdGA" yw Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig o fewn ystyr Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000).

ystyr "tan-ddraenio" yw draenio tir pan fydd system o bibau neu ddraeniau tyrchu wedi'u gosod mewn pridd sy'n wael am ddraenio (er enghraifft tiroedd clai) i gyfeirio dŵr trylfol i fwrdd ac atal dŵr rhag llenwi'r tir.

ystyr "blwyddyn" yw blwyddyn galendr sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr.

Atodlen 7 – Cynllun y safle



© Hawlfraint y Goron a chronfa ddata 2018. Trwydded Arolwg Ordnans rhif 100019741.

DIWEDD Y DRWYDDED